# Ymateb yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gofrestru Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru

## Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnal y polisi presennol a dim ond dynodi cyrsiau tystysgrif addysg israddedig ac ôl-raddedig llawn-amser fel cyrsiau cymwys at ddiben terfynau ffioedd dysgu?

Nid oes gan QAA safbwynt ar gynnal y polisi presennol o ran terfynau ffioedd dysgu, gan fod hyn y tu allan i'n cylch gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau goruchwyliaeth ansawdd gadarn ar draws yr holl ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru, waeth beth fo'r trefniadau cyllido. Credwn mai mater i Lywodraeth Cymru a chyrff cyllido yw rheoleiddio ffioedd, ac rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth i sicrhau profiad dysgu cynhwysol o ansawdd uchel i bob myfyriwr.

## Cwestiwn 2. A ydych chi'n cytuno y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad er mwyn dynodi cyrsiau addysg uwch Cymru yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?

Mae QAA o blaid y cynnig y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch Cymru yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Mae cysylltu dynodiad awtomatig â chofrestru yn darparu eglurder a chysondeb, gan sicrhau bod pob darparydd y mae ei fyfyrwyr yn elwa o gymorth cyhoeddus yn destun fframwaith cydlynol o oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae'r dull hwn yn lleihau cymhlethdod ac yn sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cael mynediad at gymorth gan Lywodraeth Cymru, waeth beth fo'u dull neu lefel astudio, yn astudio mewn amgylchedd sydd wedi'i reoleiddio, ag iddo sicrwydd ansawdd.

## Cwestiwn 3. A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyrsiau addysg uwch a gynigir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr, boed wedi'u cofrestru yn y categorïau Cymeradwy neu Gymeradwy (â chap ffioedd), gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?

Mae QAA yn cytuno â'r cynnig y dylai cyrsiau addysg uwch a gynigir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Mae hyn yn sicrhau cysondeb trawsffiniol ac yn darparu eglurder i fyfyrwyr a darparwyr fel ei gilydd. Gan fod darparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr eisoes yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol gan y Swyddfa Myfyrwyr, mae'n briodol bod eu cyrsiau'n gymwys yn awtomatig i gael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae QAA yn croesawu'r cynnig i barhau â'r trefniadau sy'n golygu bod cyrsiau darparwyr a ariennir yn gyhoeddus yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn cael eu dynodi'n awtomatig fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru,

cyn belled â'u bod yn derbyn cyllid cyhoeddus, gan sicrhau mynediad cyfartal i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ledled y DU.

Rydym hefyd yn annog cydweithio parhaus ar draws gwledydd, yn enwedig o ran sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu pan fydd polisïau neu newidiadau yn effeithio ar fyfyrwyr neu ddarparwyr ar draws ffiniau. Bydd hyn yn helpu i gynnal eglurder, cysondeb, a sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais oherwydd dulliau rheoleiddio gwahanol ym mhob gwlad.

## Cwestiwn 4. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai cyrsiau addysg uwch a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) mewn ysgolion gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes gan QAA rôl uniongyrchol mewn achredu na dynodi darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) mewn ysgolion, ac felly nid oes gennym safbwynt ar y cynnig hwn.

## Cwestiwn 5. Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau a gynigir ar ran darparwyr addysg uwch a reoleiddir, at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?

Mae QAA yn cydnabod yr angen am fwy o oruchwyliaeth a rheoleiddio ar ddarpariaeth trwy bartneriaeth ac o blaid ymdrechion i sicrhau bod pob darparydd sy'n elwa o ddynodiad awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn fframwaith wedi'i reoleiddio a bod iddo sicrwydd ansawdd.

Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i reoleiddio effeithiol hefyd fod yn gymesur, ac rydym o blaid model cyfannol o oruchwyliaeth wedi'i seilio ar Gôd Ansawdd Addysg Uwch y DU. Yn benodol, mae Egwyddor 8 a'r Cyngor a'r Canllawiau cysylltiedig ar Bartneriaethau yn ei gwneud yn glir mai'r sefydliad dyfarnu sy'n cadw'r cyfrifoldeb terfynol am y safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth a gyflwynir o fewn trefniadau partneriaeth.

Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, yn benodol Egwyddor 8: Mae gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill yn darparu fframwaith clir, y cytunwyd arno gan y sector, ar gyfer llywodraethiant effeithiol, monitro a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau ynghylch diwydrwydd dyladwy, cytundebau ysgrifenedig, rheoli risg, a chraffu parhaus ar drefniadau partneriaeth.

Rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddod â phartneriaid cyflwyno yn fwy uniongyrchol o fewn cylch gwaith rheoleiddio Medr trwy fynnu cofrestru neu statws ariannu fel amod ar gyfer dynodiad awtomatig. Er ein bod yn deall y rhesymeg dros sefydlu un porth rheoleiddio, credwn ei bod yn bwysig cydnabod bod y system adolygu allanol bresennol yng Nghymru eisoes yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd a llywodraethiant darpariaeth trwy bartneriaeth, gan gynnwys craffu ar drefniadau goruchwylio darparwyr dyfarnu.

Mae'r dull hwn eisoes wedi profi'n effeithiol yng Nghymru; er enghraifft, cadarnhaodd Adolygiad Gwella Ansawdd Prifysgol Wrecsam yn 2025 fod mecanweithiau adolygu allanol yn nodi ac yn gwella darpariaeth gydweithredol yn ymarferol, gan gynnwys goruchwyliaeth glir o drefniadau addysgu hyd-ddiwedd-cyrsiau a chraffu ar bartneriaid yn seiliedig ar risg.

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i egluro'r term "cyfrifoldeb cyffredinol am y cwrs" sy'n parhau i fod heb ei ddiffinio yn yr ymgynghoriad. Yn ymarferol, gellir dosbarthu cyfrifoldeb am ddylunio a chyflwyno cwrs ar draws sefydliadau, weithiau'n gyfartal. Heb ddiffiniad clir, mae risg o ddehongliad anghyson ac ansicrwydd rheoleiddiol.

O safbwynt QAA, ac yn unol â Chôd Ansawdd y DU: Cyngor a Chanllawiau ar Bartneriaethau, dylid deall mai'r darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y cwrs. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor mai'r sefydliad dyfarnu sy'n cadw'r atebolrwydd pennaf am safonau academaidd ei ddyfarniadau ac am sicrhau ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, waeth beth fo'r trefniadau cyflwyno.

Mae QAA o blaid yr egwyddor mai dim ond pan fo'r partner darparu hefyd yn destun goruchwyliaeth briodol gan y prif ddarparydd y dylid dynodi cyrsiau a gynigir ar ran darparwyr cofrestredig neu ddarparwyr a ariennir yn gyhoeddus yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y prif ddarparydd sydd, yn y pen draw, yn dal y cyfrifoldeb am safonau academaidd a sicrhau ansawdd, yn cynnal goruchwyliaeth o'r bartneriaeth, yn unol â safbwynt sefydledig QAA ar sicrhau darpariaeth gydweithredol.

Fodd bynnag, rydym yn awgrymu na ddylid ystyried yr egwyddor hon ar ei phen ei hun o ran sicrhau ansawdd. Mae'n hanfodol bod y prif ddarparwyr yn cael eu hadolygu'n allanol o ran ansawdd trwy brosesau adolygu cylchol er mwyn sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal, a bod y prif ddarparydd yn rheoli ei ddarpariaeth trwy bartneriaeth yn drylwyr er mwyn diogelu profiad y myfyrwyr. Mae adolygiadau allanol cylchol yn darparu haen bwysig o oruchwyliaeth annibynnol, gan sicrhau bod ansawdd addysg yn parhau i fod yn gyson ar draws gwahanol fathau o ddarpariaeth, gan gynnwys cyrsiau cydweithredol a chyrsiau rhyddfraint.

Rydym yn croesawu'r cyfle y mae'r ymgynghoriad hwn yn ei gynnig i wella cysondeb a thryloywder wrth reoleiddio darpariaeth trwy ryddfraint a darpariaeth a ddilysir. Mae'r trefniadau hyn yn dod yn fwyfwy amrywiol, gan ymestyn ymhell y tu hwnt i golegau AB i gynnwys darparwyr preifat a phartneriaid addysg trawswladol. Rydym yn annog Medr i sicrhau bod y fframwaith goruchwylio yn gadarn, yn hyblyg, ac yn gallu ymdopi â'r cymhlethdod hwn, gan barhau i gynnal y safonau uchaf.

Rydym yn croesawu'r bwriad polisi ehangach i leihau'r baich rheoleiddio a symleiddio dynodiad trwy un porth. Bydd sicrhau bod trefniadau dynodi yn gymesur, yn dryloyw ac yn ymatebol o gymorth i ddarparwyr ac yn amddiffyn dewis myfyrwyr. Mae QAA yn barod i weithio gyda Medr a Llywodraeth Cymru i gynorthwyo â'r nodau hyn ac i sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal ble bynnag y darperir addysg uwch.

## Cwestiwn 6. A ydych chi'n rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gost i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?

Nid yw QAA yn rhagweld unrhyw oblygiadau cost sylweddol neu anhylaw yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau'n awtomatig, cyn belled â bod hyn yn cael ei gyflwyno'n glir fesul cam a bod y system wedi'i chynllunio'n briodol.

Ar hyn o bryd mae QAA yn cynnal sicrwydd ansawdd allanol ar draws y sbectrwm llawn o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys colegau addysg bellach a phrifysgolion, ac felly maent mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â'r ystod o sefydliadau sy'n debygol o gofrestru gyda Medr.

Fodd bynnag, nodwn y gallai cyflwyno cofrestr statudol arwain at gynnydd yn nifer ac amrywioldeb y darparwyr sy'n destun goruchwyliaeth, yn enwedig os oes mwy o ddarparwyr yn ceisio cofrestru i elwa o ddynodiad awtomatig. Gallai hyn olygu bod angen cynllunio ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:

- Capasiti adolygwyr ac arbenigedd yn y sector.
- Canllawiau, ymgysylltu ac ymsefydlu ar gyfer darparwyr sydd newydd gofrestru.
- Gweithgaredd asesu cychwynnol sy'n gysylltiedig â threfniadau trosglwyddo neu ymgeiswyr newydd.

Mae'r rhain yn heriau y gellir eu rheoli, ond bydd cydlynu cynnar â Medr yn hanfodol i sicrhau sicrwydd ansawdd cynaliadwy ac effeithiol. Mae QAA yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol gyda Medr a Llywodraeth Cymru i reoli'r goblygiadau hyn.

## Cwestiwn 7. A ydych chi'n rhagweld unrhyw arbedion o ran costau i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?

Nid yw QAA yn rhagweld arbedion sylweddol o ran costau yn deillio'n uniongyrchol o'r dull arfaethedig.

## Cwestiwn 8. A ydych chi'n credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau â nodweddion gwarchodedig sy'n dod o dan y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

Nid oes gan QAA farn benodol ar effaith y cynigion ar bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gefnogi arferion cynhwysol ar draws y sector addysg uwch a sicrhau bod ein prosesau sicrhau ansawdd yn cyfrannu at fynediad teg i addysg uwch i bob myfyriwr.

## Cwestiwn 9. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg?

Nid oes gan QAA farn benodol ar effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg. Fodd bynnag, fel corff cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i gynnal ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod ein prosesau sicrhau ansawdd yn cyd-fynd â'r gofynion hyn i gefnogi mynediad cyfartal i addysg uwch i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

## Cwestiwn 10. Yn eich barn chi, a ellid addasu neu newid y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn fel eu bod yn:

## a) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu
## b) liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Nid oes gan QAA farn benodol ynghylch sut y gellid addasu'r cynigion i gael effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Serch hynny, fel corff cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i gynnal ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod ein prosesau sicrhau ansawdd yn adlewyrchu ac yn cefnogi cydraddoldeb iaith o fewn addysg uwch yng Nghymru.

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk